

**MOLD TOWN COUNCIL
CYNGOR TREF YR WYDDGRUG**

Unit 10
Daniel Owen Precinct
Mold
Flintshire
CH7 1AP

Telephone: 01352 758532
Fax: 01352 755804



www.moldtowncouncil.org.uk

Uned 10
Canolfan Daniel Owen
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 1AP

Ffôn: 01352 758532
Ffacs: 01352 755804

Aelodau Cyngor Tref yr Wyddgrug

25^{ain} Medi 2026

Aelodau'r Cyngor

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gelwir trwy hwn i gyfarfod Cyngor Tref yr Wyddgrug a gynhelir am **6.00pm ar 30^{ain} Medi, 2026** yn Swyddfeydd y Cyngor Tref, Uned 10 Canolfan Daniel Owen neu drwy Gynhadledd Fideo, gwelwch y ddolen isod.

Yn gywir iawn,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Janez'.

Clerc y Dref a Swyddog Cyllid

AGENDA

CYFRANOGAETH Y CYHOEDD

Mae croeso i aelodau'r cyhoedd siarad am eitemau sydd wedi eu rhestru ar yr agenda. Clustnodir hyd at 15 munud, heb roi mwy na 5 munud i bob pwnc.

Yn ôl disgresiwn y Cadeirydd, gall aelod o'r cyhoedd godi mater nad yw ar yr agenda am hyd at 5 munud. Ni chaiff y Cyngor wneud penderfyniadau na thrafod eitemau nad ydynt at yr agenda yn y cyfarfod, ond gellir gwneud nodyn o'r rhain i dderbyn ystyriaeth yn y dyfodol.

Gall y Cadeirydd ymyrryd i gadw trefn, atal sylwadau amherthnasol neu amharchus, neu ohirio'r cyfarfod os oes raid.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyn yr ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb sy'n hysbys am eitemau ar yr agenda.

3. CYHOEDDIADAU'R MAER

Derbyn Cyhoeddiadau'r Maer.

4. COFNODION

4.1 **Derbyn** cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 27^{ain} Gorffennaf 2026 a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.2 **Derbyn** cofnodion Cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd ar 29^{ain} Gorffennaf 2026 a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.3 **Derbyn** cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 24^{ain} Awst 2026 a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.4 **Derbyn** cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygiad ac Adfywio Cymuned a gynhaliwyd ar 7^{fed} Medi 2026 a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.5 **Derbyn** cofnodion Cyfarfod Pwyllgor y Fynwent a gynhaliwyd ar 9^{fed} Medi 2026 a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.6 **Derbyn** cofnodion Cyfarfod Eithriadol y Cyngor Tref a gynhaliwyd ar 14^{eg} Medi, 2026 a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.7 **Derbyn** cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 21^{ain} Medi 2026 a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

5. CYNGOR SIR Y FFLINT – SAFONAU MASNACH

Croesawu cynrychiolwyr o wasanaeth Safonau Masnach Cyngor Sir y Fflint i roi crynodeb a diweddariad i'r Aelodau am eu gwaith yn Sir y Fflint a'r Wyddgrug.

Rhoi cyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau sy'n ymwneud â Safonau Masnach.

6. Y RHESTR WEITHREDU

Nodi'r Rhestr Weithredu ddiweddaraf sydd ynghlwm.

7. ADRODDIADAU SWYDDOGION

(i) **Derbyn** adroddiad gan y Swyddog Digwyddiadau ac Ymgysylltiad Cymunedol (ynghlwm).

(ii) **Derbyn** adroddiad gan Glerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (ynghlwm).

6. GOHEBIAETH

Derbyn ac ystyried yr ohebiaeth a ganlyn:

- i) Pryderon preswylwyr – Iceland (ynghlwm)
- ii) Adroddiad Diwedd yr Haf – Cynllun Chwarae Sir y Fflint (ynghlwm)
- iii) Ffitrwydd, Bwyd a Darllen – Adroddiad (ynghlwm)
- iv) Canolfan Gymunedol Daniel Owen – Cais am Ryddhau Cyllid a Gymeradwywyd – cyfraniad o £5,000 tuag at weithredu'r Toiledau at Ddefnydd Cyhoeddus a chyfraniad o £5,000 tuag at redeg y Ganolfan Gymunedol, y darperir ar ei gyfer yng nghyllideb gymeradwy 2026/27 y Cyngor Tref.

9. UN LLAIS CYMRU/ Y GYMDEITHAS CLERCOD CYNGHORAU LLEOL (SLCC) – DIGWYDDIAD AR Y CYD, TACHWEDD, 2026

Derbyn ac **ystyried** gwahoddiad i fynychu Digwyddiad ar y Cyd gydag Un Llais Cymru a'r Gymdeithas Clercod Cyngorau Lleol (SLCC), sy'n cael ei gynnal ar-lein ar ddydd Mercher 18^{fed} Tachwedd 2026.

Mae'r digwyddiad yn agored i Gynghorwyr a Chlercod, a bydd yn ymdrin ag amrywiaeth o faterion sy'n effeithio ar y sector cyngorau lleol, gan gynnwys blaenoriaethau'r dyfodol, iechyd democrataidd, y gyfraith cyflogaeth, y Cod Ymddygiad, deallusrwydd artifisial a'r argyfwng costau byw.

Y gost i fynychu yw £75.00 + TAW y pen.

Argymhelliad: Bod yr Aelodau'n cymeradwyo presenoldeb Clerc y Dref ac yn ystyried a fyddai unrhyw Aelodau eraill yn dymuno mynychu hefyd, gyda'r costau archebu cysylltiedig o £75.00 + TAW y pen yn cael eu hawdurdodi yn unol â hynny.

10. UN LLAIS CYMRU – CYNIGION AR GYFER CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL 2027

Derbyn ac **ystyried** gohebiaeth gan Un Llais Cymru yn gwahodd Cyngorau sy'n Aelodau i gyflwyno uchafswm o ddau gynnig i'w trafod yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynnyddol 2027, a fydd yn digwydd ar Ddydd Mercher 3^{ydd} Chwefror 2027.

Rhaid i gynigion ymwneud â mater neu broblem genedlaethol a rhaid iddynt gael eu cyflwyno gyda nodyn esboniadol byr o ddim mwy na 150 o eiriau.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynigion i Un Llais Cymru yw hanner dydd ar ddydd Gwener 4^{ydd} Rhagfyr 2026.

Argymhelliad: Bod yr Aelodau'n ystyried a yw Cyngor Tref yr Wyddgrug yn dymuno cyflwyno unrhyw gynigion i'w hystyried yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynnyddol Un Llais Cymru yn 2027 ac, os felly, yn cytuno ar y cynnig (neu'r cynigion) arfaethedig i'w cyflwyno.

11. CYNGOR SIR Y FFLINT – CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYD-BWYLLGOR SAFONAU

Derbyn ac **ystyried** gwahoddiad i fynychu Cyfarfod Blynnyddol y Cyd-Bwyllgor Safonau gyda Chynghorau Tref a Chymuned, a fydd yn digwydd ar Ddydd Llun 2^{il} Tachwedd 2026.

Nid yw Clerc y Dref yn gallu mynd ac felly gofynnir i'r Aelodau ystyried a oes Cynghorydd ar gael i gynrychioli Cyngor Tref yr Wyddgrug yn y cyfarfod.

Gwahoddir Aelodau hefyd i ystyried a oes unrhyw faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad neu faterion moesegol yr hoffent ofyn iddynt gael eu cynnwys ar yr agenda neu eu codi fel arall i'w hystyried yn y cyfarfod. Rhaid cyflwyno unrhyw eitemau arfaethedig i Gyngor Sir y Fflint erbyn dydd Gwener 23^{ain} Hydref 2026.

Argymhelliad: Bod yr Aelodau'n enwebu cynrychiolydd i fynychu ar ran Cyngor Tref yr Wyddgrug ac yn cytuno ar unrhyw faterion y dymunant eu cyflwyno i dderbyn ystyriaeth.

12. COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU – ADOLYGIAD 2030 O ETHOLAETHAU'R SENEDD

Nodi bod Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru wedi cyhoeddi ei Ganllaw ar gyfer Adolygiad 2030 o Etholaethau'r Senedd, sy'n amlinellu'r broses adolygu, y dyddiadau allweddol a sut y gall unigolion a sefydliadau gymryd rhan.

Bydd unrhyw newidiadau a argymhellir gan y Comisiwn yn dod i rym ar gyfer etholiad y Senedd yn 2030.

Canllaw: [Canllaw i Arolwg 2030 o Etholaethau'r Senedd](#)

Argymhelliad: Bod yr Aelodau'n nodi cyhoeddiad y Canllaw.

13. PLANNU AR GYFER Y GAEAF – DALWYR PLANHIGION AR STRYD Y BREIN

Ystyried cais gan contractwr plannu'r Cyngor i gynnwys y dalwyr planhigion sydd ar Stryd y Brenin yn y rhaglen blannu ar gyfer y gaeaf, i gyfateb â'r plannu tymhorol a ddarperir wrth Arwyddion Croeso'r dref.

Y gost ychwanegol i ddarparu planhigion y gaeaf ar gyfer dalwyr planhigion Stryd y Brenin fyddai £240.00.

Argymhelliad: Bod yr Aelodau'n ystyried a ddylid cymeradwyo'r gwariant ychwanegol o £240.00 ar gyfer plannu planhigion y gaeaf yn y dalwyr planhigion ar Stryd y Brenin.

14. CAIS AM BYST GÔL – PARC Y SANTES FAIR

Derbyn ac **ystyried** cais gan breswlydd am ddarparu pyst gôl ym Mharc y Santes Fair, Yr Wyddgrug.

Mae adroddiad ynghlwm sy'n nodi'r cais a gwybodaeth berthnasol i'r Aelodau ei hystyried.

Argymhelliad: Bod yr Aelodau'n ystyried y cais ac yn cytuno pa gamau pellach, os o gwbl, y mae'r Cyngor Tref yn dymuno eu cymryd.

15. CAEL GWARED AR LWYFAN SEREMONIOL

Ystyried cael gwared ar y llwyfan seremonïol sy'n cael ei storio ar hyn o bryd yn Gas Lane ac a ddefnyddiwyd yn y gorffennol ar gyfer Gwasanaeth Coffa'r Dref, ac nad yw bellach yn addas at y diben.

Argymhelliad: Bod yr Aelodau'n cytuno nad yw'r llwyfan seremonïol yn addas at y diben mwyach, ac yn awdurdodi Uwcharolygydd y Fynwent i drefnu i gael gwared arno mewn modd priodol.

16. DOGFENNAETH MEINCIAU COFFA – ARGYMHELLIAD PWYLLGOR Y FYNWENT

Ystyried argymhelliad Pwyllgor y Fynwent mewn perthynas â chyflwyno dogfennaeth newydd ar gyfer Meinciau Coffa a'r trefniadau cysylltiedig ym Mynwent yr Wyddgrug.

Mae'r dogfennau canlynol wedi'u hatodi i dderbyn ystyriaeth gan yr Aelodau:

- (a) Polisi Meinciau Coffa
- (b) Gwasanaeth Arfaethedig ar gyfer Meinciau Coffa
- (c) Cytundeb Ceisiadau a Chynnal a Chadw Meinciau Coffa
- (ch) Llythyr – Meinciau Coffa
- (d) Diweddarau'r Wybodaeth am Feinciau Coffa

Argymhelliad: Bod yr Aelodau'n ystyried argymhelliad Pwyllgor y Fynwent ac yn cymeradwyo'r ddogfennaeth newydd ar gyfer Meinciau Coffa a'r trefniadau cysylltiedig.

17. DYFARNIAD CYFLOG CENEDLAETHOL 2026/27

Nodi'r dyfarniad cyflog cenedlaethol o 3.3% ar gyfer 2026/27. Yn unol â chontractau cyflogaeth y gweithwyr, mae'r cyfraddau cyflog diwygiedig wedi eu

gweithredu ac mae'r staff wedi derbyn y cynnydd yn eu cyflogau ynghyd â'r ôl-daliad priodol yng nghyflogres mis Medi 2026.

Argymhelliad: Bod yr Aelodau'n nodi bod dyfarniad cyflog cenedlaethol 2026/27 wedi cael ei weithredu.

18. HYSBYSIAD CYNLLUNIO

Nodi'r adroddiad sydd ynghlwm.

19. CYFRIFON/ TALIADAU

Cymeradwyo'r amserlenni talu sydd ynghlwm ar gyfer holl gyfrifon y Cyngor Tref ar gyfer Misoedd 4 a 5, gan nodi bod taliadau wedi eu gwneud yn unol â'r pwerau statudol perthnasol sydd ar gael i gynghorau lleol.

20. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD

Ystyried, yn unol ag Adran 1(2) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o weddill y cyfarfod tra ystyrir yr eitemau canlynol, ar sail y ffaith eu bod yn debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig neu wybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol.

21. SWYDDFA'R CYNGOR TREF – YSTYRIAETHAU DIOGELWCH

Derbyn ac ystyried yr adroddiad sydd ynghlwm ynghylch trefniadau diogelwch yn Swyddfeydd y Cyngor Tref yn dilyn y digwyddiad ar 9 Medi 2026, gan gynnwys opsiynau ar gyfer mesurau ychwanegol i wella diogelwch y safle a diogelwch staff, yr aelodau ac ymwelwyr.

Argymhelliad: Bod yr Aelodau'n ystyried yr adroddiad amgaeëdig ac yn cytuno ar unrhyw fesurau diogelwch ychwanegol a chymau gweithredu cysylltiedig a ystyrir yn briodol.

CYFARWYDDIADAU ZOOM

Ymuno â'r Cyfarfod Zoom

<https://us02web.zoom.us/j/81710049564?pwd=NvWQANBADjcJTz7uTnx9QoLsV8FCx1.1>

ID y Cyfarfod: 817 1004 9564

Cyfrinair: 391069